Y CYLCHGRAWN CERDDORIAETH CRYNO AR GYFER PLANT BLYNYDDOEDD 5–8 • RHIFYN 14 • HAF 2023

Y SELAR BACH

ARTIST Y RHIFYN!

DAFYDD OWAIN

MAE GWYLIAU'R HAF bron â chyrraedd, ac mae'n siŵr eich bod chi'n edrych ymlaen yn fawr at frêc o'r ystafell ddosbarth. Mae'n siŵr bod eich athrawon yn edrych ymlaen hyd yn oed yn fwy!

Wrth gwrs, yn ogystal â chael egwyl o'r ysgol, mae'r haf yn golygu rhywbeth pwysig arall — llwyth o fandiau ac artistiaid yn perfformio yng ngŵyliau cerddorol yr hâf!

Yr **Eisteddfod Genedlaethol** yn Llŷn ac Eifionydd fydd uchafbwynt yr haf o ran cerddoriaeth fyw i lawer mae'n siŵr gyda gigs ym **Maes B**, ar lwyfan y maes ac yn gigs **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg** yn ystod yr wythnos.

Ond mae llwyth o ddigwyddiadau eraill lle bydd cyfle i weld nifer o fandiau Cymraeg yn perfformio: **Tafwyl** yng Nghaerdydd, **Gŵyl Canol Dre** yng Nghaerfyrddin, **Sesiwn Fawr Dolgellau** a **Gŵyl Llanuwchllyn** i enwi dim ond llond dwrn ohonynt – edrychwch ar ein rhestr ar y dde.

Mae digon o gerddoriaeth newydd yn cael ei ryddhau yn ystod yr hâf gan artistiaid Cymraeg hefyd, felly cadwch olwg am y newyddion i gyd ar wefan **Y Selar**.

Artist y rhifyn y tro yma ydy **Dafydd Owain**, sydd newydd ryddhau ei albwm cyntaf, **Uwch Dros y Pysgod**, a cewch ddysgu mwy amdano yn y rhifyn yma.

GWYLIAU'R HAF

Dyma rai o wyliau haf y dylech chi geisio ymweld â nhw i weld cerddoriaeth fyw ardderchog eleni:

- **8 Gorffennaf** Gŵyl Canol Dre, Caerfyrddin
- **16–15 Gorffennaf** Tafwyl, Caerdydd
- **20–23 Gorffennaf** Sesiwn Fawr Dolgellau
- **5–13 Awst** Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd
- **5–12 Awst** Gigs Eisteddfod Cymdeithas yr Iaith yn Nanhoron, Nefyn
- **17–20 Awst** Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Bannau Brycheiniog
- **25–27 Awst** The Big Tribute Festival, Aberystwyth
- **26 Awst** Gŵyl Llanuwchllyn

FFEIL O FFEITHIAU DAFYDD OWAIN

AELODAU: Dafydd Owain. Offerynwyr eraill ar yr albwm yn cynnwys Llŷr Pari, Osian Huw, Aled Huws, Gethin Griffiths, Harri Owain a Beca Davies.
O BLE: Arfon
FFURFIWYD: 2023 (dechrau rhyddhau cerddoriaeth yn unigol)
RECORDIAU: 'Uwch Dros y Pysgod' (albwm cyntaf, 2023)

UCHAFBWYNTIAU:
- Cafodd Dafydd ymateb gwych i'w sengl gyntaf, 'Uwch Dros y Pysgod', wrth iddo ei rhyddhau ym mis Ionawr 2023.
- Rhyddhau ei albwm, sy'n rhannu enw gyda'r sengl gyntaf yna, ydy uchafbwynt ei yrfa fel artist unigol hyd yn hyn.
- Creu fideo gwych 'Uwch Dros y Pysgod' gyda'r cyfarwyddwr, Dafydd Huws

FFEITHIAU DIDDOROL:
- Eitha Tal Ffranco oedd enw band cyntaf Dafydd Owain. Ffurfiodd y band yn yr ysgol gyda'i ffrind Gruff ab Arwel sydd wedi bod mewn sawl band a sydd bellach yn perfformio dan yr enw Bitw.
- Mae Dafydd wedi bod yn aelod o sawl band ers hynny hefyd gan gynnwys Jen Jeniro, Palenco ac Omaloma.
- Dylunydd graffeg ydy Dafydd Owain o ran swydd bob dydd.
- Mae albwm cyntaf Dafydd yn un 'cysyniadol' sy'n sôn am bentref dychmygol mae Dafydd wedi creu wrth gofio am raglenni plant roedd yn afer gwylio fel Sam Tân

GEIRFA

gŵyl/gwyliau – festival/festivals
llond dwrn – a handful
cerddoriaeth fyw – live music
dylunydd graffeg – graphic designer (dylunio pethau fel cylchgronau, posteri ac ati)
albwm cysyniadol – 'concept album' sef albwm gyda caneuon yn troi o gwmpas un pwnc neu thema
EP – record fer, llai nag albwm, rhyw 4 neu 5 o ganeuon fel arfer
cynhyrchydd – 'producer', sef rhywun sy'n helpu creu cerddoriaeth mewn stiwdio recordio

RHESTR CHWARAE

- *Uwch Dros y Pysgod*
- *Penbyliaid*
- *Gan Gwaith*
- *Llongyfarchiadau Mawr*

PUMP CÂN NEWYDD Y DYLECH CHI WRANDO ARNYN NHW

Disgo Newydd – Sywel Nyw

Cyma Dy Wynt – Alys Williams

Tôn Gron – Lloyd Steele

Tai Hâf – Tad

05:00 – Gwilym

RHAGOR AM GERDDORIAETH GYMRAEG

Gwefan Y Selar

Blog Sôn am Sîn

Sianel YouTube Lŵp

Rhaglenni Radio Cymru

PUMP UCHAF Y SELAR

Dyma'r pump band sydd wedi dal sylw Y Selar yn ddiweddar

1. BLE? Band ifanc o Gaerdydd sydd newydd ryddhau eu sengl gyntaf, ***Epiphany***.

2. MALI HÂF Mae Mali newydd ryddhau ei sengl a fideo newydd, ***SHWSH!*** ac mae EP (record fer) i ddod ganddi yn yr hydref.

3. HYLL Bydd y band o Gaerdydd yn rhyddhau eu halbwm cyntaf ym mis Gorffennaf dan yr enw ***Sŵn o'r Stafell Arall***.

4. BWCA Mae'r band bywiog o Aberystwyth newydd ryddhau eu hail albwm, sef ***Hafod***.

5. GLAIN RHYS Mae'r gantores dalentog o ardal Y Bala wedi rhyddhau ei ***albwm newydd*** yn ddiweddar ar label **I Ka Ching**.

Rhyddhau sengl swyddogol Eisteddfod yr Urdd

Mae'n siŵr bod llawer iawn ohonoch chi sy'n darllen hwn wedi bod i Eisteddfod yr Urdd ar ddiwedd mis Mehefin, ac wrth i'r ŵyl ymweld â Llanymddyfri, roedd cân newydd wedi'i rhyddhau i nodi'r achlysur.

Hana Lili, Adwaith a merched Sir Gâr oedd wedi cyfansoddi, recordio a chynhyrchu'r gân arbennig i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Sir Gâr.

'Ein Gwlad' ydy enw'r trac newydd sydd wedi'i rhyddhau gan yr Urdd ac sydd wedi ei chreu gan bobl ifanc yr ardal.

Ysgrifennwyd y gân mewn gweithdai arbennig ar y cyd ag Yr Egin a Merched yn Gwneud Miwsig. Mae Merched yn Gwneud Miwsig yn brosiect sy'n rhoi lle saff i ferched i ddysgu sgiliau newydd mewn gweithdai dros Gymru. Mae hwn hefyd yn un o brosiectau celfyddydol #FelMerch sydd yn ysbrydoli a chefnogi merched ifanc drwy greu.

Yn y gweithdy cyntaf, aeth Hollie Singer a Gwenllian Anthony o'r band Adwaith i ddosbarth cerdd yn Ysgol Maes y Gwendraeth i gyfansoddi'r alaw a'r geiriau i'r gân. Yna, rai diwrnodau wedyn, roedd gweithdy recordio a chynhyrchu wedi'i arwain gan Hana Lili a Steffan Rhys Williams yng Nghanolfan S4C yr Egin i recordio'r sengl a'i chynhyrchu ar y cyd gyda chriw o ferched lleol o Sir Gaerfyrddin.

Does dim angen egluro pwy ydy Adwaith – mae'r band ôl-bync o Gaerfyrddin, sydd wedi teithio'r byd gyda'u cerddoriaeth a'r band cyntaf erioed i ennill Y Wobr Gerddoriaeth Gymreig ddwywaith am eu halbyms 'Melyn' a 'Bato Mato'.

Mae Hana Lili yn gerddor a chynhyrchydd amlwg iawn o'r Bari sydd wedi teithio ar draws Prydain yn perfformio ac roedd hi'n cefnogi Coldplay yn Stadiwm y Principality yn ddiweddar.

Roedd Hana Lili ac Adwaith yn perfformio yng Ngŵyl Triban, sef gŵyl o fewn gŵyl Eisteddfod yr Urdd a ddigwyddodd ar benwythnos olaf yr Eisteddfod. Roedd llwyth o artistiaid eraill yn perfformio ar y penwythnos gan gynnwys Dafydd Iwan, N'famady Kouyate a Tesni Hughes.

Ras yr Iaith: Ysgol Penrhyn-coch

Yn ddiweddar, bu miloedd o blant yn cymryd rhan yn Ras yr Iaith ar ddydd Iau 22 Mehefin. Y wobr i blant ardal Aberystwyth ar ôl rhedeg ar y Prom, oedd gig yng nghwmni Mei Gwynedd a Tŷ Potas! Dyma ddarn bach am sut y gwnaethon nhw fwynhau'r gig:

Yn ddiweddar, mi wnaethom gymryd ran yn Ras yr Iaith.

Cyfle grêt i ddathlu Cymreictod. I goroni'r cyfan ar ddiwedd y ras, roedd yna Gig yn y Bandstand ar y prom yn Aberystwyth. Yn chwarae yno roeddMei Gwynedd a Band Tŷ Potas – roedden nhw yn wych!

Fe wnaethom ni fwynhau dawnsio, canu a dathlu gyda nhw a'n ffrindiau. Croeso iddynt ddod i ganu yn yr ysgol unrhyw amser. Am ddiwrnod i'r brenin!

Ysgol Penrhyncoch

SELAR YN YR YSGOL

*Ym mhob rhifyn o'r **Selar Bach** rydyn ni'n holi disgyblion o ysgolion gwahanol am y gerddoriaeth Gymraeg maen nhw'n ei mwynhau. Yn y rhifyn yma, rydan ni'n cymysgu pethau rhywfaint ac wedi bod yn holi pobl o ysgolion **Bro Preseli**, **Ysgol Gyfun Tregwyr**, **Ysgol Penrhyncoch** ac **Ysgol Teilo Sant**.*

Enw: Gwion
Ysgol: Ysgol Bro Preseli
Hoff fand Cymraeg: Bwncath
Hoff gân Gymraeg: 'Fel Hyn Da Ni Fod' – Bwncath
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Yn y car
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Bwncath, Candelas, Bryn Fôn

Enw: Elen
Ysgol: Bro Preseli
Hoff fand Cymraeg: Gwilym
Hoff gân Gymraeg: 'Paid â Bod Ofn' – Eden
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Yn fy ystafell wely
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Gwilym, Eden a Candelas

Enw: Lowri
Ysgol: Ysgol Gyfun Tregwyr
Hoff fand Cymraeg: Alffa
Hoff gân Gymraeg: 'Yma O Hyd' – Dafydd Iwan
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Yn tŷ ac yn y car
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Alffa, Sŵnami, Bronwen Lewis

Enw: Evie
Ysgol: Ysgol Gyfun Tregwyr
Hoff fand Cymraeg: Calfari
Hoff gân Gymraeg: 'Calon Lân
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Yn fy ystafell wely
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Bronwen Lewis, Yws Gwynedd a Dafydd Iwan

Enw: Twm
Ysgol: Ysgol Penrhyncoch, Ceredigion
Hoff fand Cymraeg: Candelas
Hoff gân Gymraeg: 'Rhedeg i Paris' – Candelas
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Yn fy ystafell wely
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig berffaith? Candelas, Welsh Whisperer ac Elin Fflur

Enw: Rhys
Ysgol: Ysgol Penrhyncoch, Ceredigion
Hoff artist Cymraeg: Elin Fflur
Hoff gân Gymraeg: 'Calon Lân'
Lle fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth? Mewn gigs
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig berffaith? Yws Gwynedd, Elin Fflur a'r Welsh Whisperer

Enw: Madi
Ysgol: Ysgol Teilo Sant
Hoff artist Cymraeg: Candelas
Hoff gân Cymraeg: 'Sosban Fach'
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Ar y radio
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Candelas, Dafydd Iwan, Clwb Cymru

Enw: Lili
Ysgol: Ysgol Teilo Sant
Hoff artist Cymraeg: Dafydd Iwan
Hoff gân Gymraeg: 'Yma o Hyd' – Dafydd Iwan
Lle fyddai di'n gwrando i gerddoriaeth? Yn yr ysgol, yn y tŷ ac yn y car
Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Dafydd Iwan, Welsh Whisperer ac Adwaith

*Os hoffai eich dosbarth chi ateb cwestiynau'r **Selar Bach** anfonwch neges at **post@selar.cymru***